

ATODIAD 6

TRETH CYNGOR

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor llawn ei wneud, yn sgil yr ystyriaethau cyflwynir yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2022/23. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.
2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r lefel bu'n rhaid ei godi yn amrywio'n flynyddol, a hynny i raddau helaeth am fod setliad grant Llywodraeth Cymru yn siomedig. Er enghraifft, yn 2019/20 bu'n rhaid cynyddu'r dreth 5.8%, o 3.9% yn 2020/21 ac o 3.7% yn 2021/22.
3. Eleni, erbyn 2022/23 argymhellir codi'r dreth 2.95%. Byddai hynny'n cynhyrchu £82.1m o dreth (o'i gymharu â £80.9m yn 2021/22), sy'n cynnwys £6m o gynnyrch Premiwm. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £43.76 i eiddo mewn Band D, neu 84c yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 3.68% ar gyfer 2022/23) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
4. Mae dros 8,700 o dai sy'n atebol i dalu treth yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 0.1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £79,672. Felly, byddai 0.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £398,359 tra byddai 1% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £796,718.

5. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2015/16:

Blwyddyn	Cyngor	
	Gwynedd	Cymru
2021/22	3.7%	3.6%
2020/21	3.9%	4.6%
2019/20	5.8%	6.2%
2018/19	4.8%	4.9%
2017/18	2.8%	3.0%
2016/17	4.0%	3.6%
2015/16	4.5%	4.3%
Cyfartaledd 2015-22	4.2%	4.3%

Yn 2021/22 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,483 tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,403.

Ceir mwy o fanylion yn ddogfen yma (sydd ar gael yn Saesneg yn unig): [Council Tax Levels in Wales, 2021-22 \(llyw.cymru\)](#)

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2022/23, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yw bydd amrediad eithaf eang ar draws Cymru. Mae'r cynnig gerbron i godi'r dreth 2.95% yn gyson â'r sefyllfa ar draws y gogledd.
7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol yn y gweithdai aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 2.95%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £0.84 neu £43.76 yn flynyddol, gyda threth Band D o £1,526.99 am 2022/23.**

CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI

8. Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 2 Rhagfyr 2021, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 100% ar ail gartrefi ac ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy am 2022/23. Amcangyfrifir bydd y Cyngor yn derbyn £6m o incwm ychwanegol yn 2022/23 trwy godi'r premiwm, a bwriedir neilltuo'r arian mewn cronfa er mwyn gweithredu'r Cynllun Gweithredu Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau.
9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a cyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2022/23.